AMGUEDDFA CYMRU

Sesiwn Gyhoeddus Bwrdd yr Ymddiriedolwyr – Cofnodion

Dydd Mercher 17 Mehefin 2026 am 09:45 – 14:00

Ystafell Caban, Castell Penrhyn, Bangor

Ymddiheuriadau:

David Aled Jones, Ymddiriedolwr

Aelodau'r Bwrdd a oedd yn Bresennol:

Kate Eden
Rhys Evans
Hywel John
Huw George
Owen Hathway
Yr Athro John Hunt
Dr Justin Morris
Clare Pillman
Dan Richards
Freya Stannard
Richard Thomas
Jan Williams CBE
Cai Wilshaw
Dr Emma Yhnell

Aelodau'r Tîm Gweithredol a oedd yn Bresennol:

Jane Richardson, Prif Weithredwr
Phil Bushby, Cyfarwyddwr Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth
Nia Elias, Cyfarwyddwr Cysylltiadau a Chyllido
Peter Holt, Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro
Peter Wakelin, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil Dros Dro
Nia Williams, Cyfarwyddwr Profiad, Addysg ac Ymgysylltu

Unigolion Ychwanegol a oedd yn Bresennol:

Nicky Guy, Llywodraeth Cymru
John Giblin, Darpar Gyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil
Max Looker, Pennaeth Llywodraethu
Chris Pyrah, Swyddog Llywodraethu
Lowri Gwyn (Cyfieithydd)

1. Agor y Cyfarfod

Noddwr a Chyflwynydd: Kate Eden, Cadeirydd

I. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
II. Ni roddwyd gwybod i'r Cadeirydd am unrhyw ddatganiadau ychwanegol o fuddiant.
III. Diolchodd y Cadeirydd i staff Amgueddfa Lechi Cymru a Chanolfan Gasgliadau Llandygai am hwyluso'r Sesiwn Datblygu'r Bwrdd a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2026.

2. Prosiect Ailddatblygu Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd (NMC 100)

2.1 Maint yr Uchelgais

Noddwr a Chyflwynydd: Jane Richardson, Prif Weithredwr

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Jane Richardson, Prif Weithredwr, a ddywedodd y canlynol:
    i. Roedd NMC 100 yn fwy na dim ond prosiect adeiladau. Roedd hefyd yn cynrychioli cyfle i ailddiffinio rôl diwylliant yn y broses o lywio bywyd y genedl.
    ii. Mae gan brosiect NMC 100 nifer o uchelgeisiau, e.e. cynyddu faint o le sydd ar gael i'r cyhoedd o fewn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd o 29% i 60% drwy agor gofodau sydd ar gau ar hyn o bryd a gofodau cefn tŷ. Byddai'n cynyddu gofod orielau ar gyfer arddangos mwy o'r casgliadau drwy gwblhau pedwaredd adain yr adeilad a oedd wedi'i chynnig yn wreiddiol.
    iii. Mae NMC 100 yn brosiect adfywio economaidd allweddol a allai wneud Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn angor ar gyfer ardal ddiwylliannol newydd yng Nghaerdydd, gan helpu i gynyddu canran yr ymwelwyr rhyngwladol â Chymru o bosibl. Felly, dylid ystyried bod NMC 100 yn rhaglen ddiwylliannol ac yn rhaglen adfywio economaidd.
    iv. Cafodd camau drafft cychwynnol y rhaglen eu hamlinellu fel a ganlyn:
        - Cam 1 – Gwaith galluogi cychwynnol, a oedd eisoes yn mynd rhagddo
        - Cam 2 – Gwaith adeiladu sylweddol rhwng 2028 a 2030/2031, gan gynnwys adeiladu'r bedwaredd adain a sicrhau y byddai'r rhan fwyaf ar agor i'r cyhoedd erbyn diwedd y cam

- Cam 3 – Creu gofodau arddangos dros dro newydd yn 2032/2033
- Cam 4 – Uwchraddio'r cynnig addysg a'r ardaloedd i'r staff
- Cam 5 – Tirlunio'r ardal o amgylch yr Amgueddfa a lansio'r ardal ddiwylliannol.

II. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y tynnwyd sylw at y canlynol:

i. Byddai gan y Prif Weithredwr ffocws allanol pwysig er mwyn helpu i ennyn cefnogaeth i raglen NMC 100. Byddai hyn yn cynnwys dysgu o brosiectau tebyg a oedd wedi cael eu cynnal yn y sector yn ehangach.

ii. Roedd gwaith archwilio eisoes yn mynd rhagddo er mwyn asesu sut y gellid arddangos casgliadau Amgueddfa Cymru mewn sefydliadau eraill, pe bai Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn cau ar gyfer y gwaith. Byddem yn ceisio gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau yng Nghymru, yn y DU, ac mewn gwledydd tramor.

iii. Byddai'r cynlluniau arfaethedig ar gyfer y bedwaredd adain yn mynd i'r afael â rhai o broblemau ymarferol allweddol y safle, gan gynnwys mynedfa benodedig i ysgolion a mynediad ar wahân ar gyfer cludo casgliadau i mewn i'r Amgueddfa ac oddi yno heb orfod cloi'r ardal cefn tŷ gyfan.

iv. Byddai'n rhaid gwneud gwaith codi arian helaeth i gefnogi'r prosiect hwn. Mae'n debygol mai dim ond cyllid ar gyfer y gwaith mecanyddol, y gwaith trydanol a'r plymwaith fyddai ar gael gan Lywodraeth Cymru.

v. Wrth i NMC 100 symud o RIBA 1 i gam dylunio cysyniadau RIBA 2, byddai cyfeiriad strategol y prosiect yn cael ei gadarnhau a byddai'r broses o droi'r prosiect yn rhaglen yn digwydd o ddifrif.

vi. Er bod adnoddau wedi cael eu rhyddhau ar gyfer mynd i'r afael â'r agweddau ar y rhaglen sy'n ymwneud ag adeiladau, roedd angen mwy o adnoddau ar gyfer casgliadau, cyfathrebu, ac aelodau eraill o staff i ystyried goblygiadau NMC 100 yn llawn, a hynny yn ystod y rhaglen ac ar ôl iddi gael ei chwblhau. Bydd rolau prosiect mewnol yn cael eu creu i arwain ar y rhannau pwysig hyn o'r rhaglen. Gan nad oes cyllid refeniw ychwanegol ar gael, bydd angen darparu ar gyfer y rolau o fewn cyfyngiadau'r gyllideb bresennol.

vii. Roedd gwaith yn mynd rhagddo i benderfynu ar y ffyrdd gorau y gallai NMC 100 arddangos y casgliadau mewn orielau ac mewn lleoliadau eraill.

viii. Gan y byddai angen cryn dipyn o gymorth cyfalaf a refeniw i gyflawni NMC 100, byddai hyn yn cael ei nodi'n glir yn yr Achos Busnes Gwrthrychol, i ategu sgyrsiau a oedd eisoes wedi cael eu cynnal â Llywodraeth Cymru ac ymhelaethu arnynt.

ix. Pe bai'r Amgueddfa'n cael ei chau, byddai angen symud casgliadau o Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd i'r Ganolfan Gasgliadau Genedlaethol ar raddfa fawr. Byddai hyn yn golygu bod angen codi estyniad i'r Ganolfan Gasgliadau. Fodd bynnag, roedd hyn hefyd yn gyfle i ystyried y ffyrdd gorau o storio casgliadau, gan sicrhau eu bod yn fwy hygyrch i gynulleidfaoedd y dyfodol.

x. Roedd realiti'r sefyllfa bresennol yn golygu bod adeilad Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn wynebu anawsterau a phosibilrwydd parhaus o orfod ei gau. Roedd staff yn gweithio i liniaru diffygion yn y seilwaith yn

rheolaidd er mwyn sicrhau y gallai Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd aros ar agor.

xi. Roedd cyfres o negeseuon strategol byr ynglŷn ag NMC 100 wedi cael ei datblygu, a byddai'n cael ei rhannu â'r Ymddiriedolwyr er gwybodaeth.

CAM GWEITHREDU: Negeseuon strategol i gael eu rhannu â'r Ymddiriedolwyr er gwybodaeth. (CJP)

PENDERFYNWYD: YSTYRIWYD yr eitem a rhoddwyd SICRWYDD i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr. CYMERADWYODD yr Ymddiriedolwyr y trywydd a oedd yn cael ei gyfleu yn y lluniadau cysyniadol pensaernïol.

2.2 Goblygiadau i'r Casgliadau

Noddwr a Chyflwynydd: Peter Wakelin, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil Dros Dro

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Peter Wakelin, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil Dros Dro, a ddywedodd y canlynol:

i. Y prif ffocws ar gyfer casgliadau o fewn NMC 100 fyddai dangos mwy na'r 2-3% o'r casgliadau cenedlaethol sydd i'w gweld ar safleoedd Amgueddfa Cymru ar hyn o bryd, ac arddangos eitemau mewn ffyrdd diddorol ac atyniadol.

ii. Gan y byddai'r rhaglen yn golygu bod angen gwagio casgliadau o'r adeilad i hwyluso'r gwaith, byddai'r Ganolfan Gasgliadau Genedlaethol yn hanfodol bwysig. Mae'r Ganolfan Gasgliadau'n adnodd ardderchog sy'n eiddo i Amgueddfa Cymru ac sydd mewn lleoliad da gyda lle i ymestyn.

iii. Er mwyn hwyluso'r broses o wagio casgliadau o Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, roedd angen creu mwy o le, a hynny mewn modd amserol er mwyn iddo fod yn barod cyn unrhyw waith ar Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd ei hun, y tu hwnt i'r gweithgareddau cynnal a chadw presennol.

iv. Gofynnwyd i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr GYMERADWYO'R cynnig i fwrw ymlaen â llunio cynlluniau ar gyfer lle storio ychwanegol, ar ffurf estyniad i'r Ganolfan Gasgliadau Genedlaethol.

II. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y tynnwyd sylw at y canlynol:

i. Nid oedd penderfyniadau wedi cael eu gwneud eto ynglŷn â pha rannau o'r casgliadau fyddai'n symud yn ôl i mewn i Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd (neu safleoedd eraill) yn dilyn y gwaith, ond byddai hyn yn cael ei ystyried fel rhan o flaengynlluniau'r rhaglen.

ii. Un her a oedd yn gysylltiedig â gwagio eitemau o Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd oedd bod nifer o anghenion cadwraeth gwahanol a chymhleth o fewn y casgliadau y byddai'n rhaid darparu ar eu cyfer yn y Ganolfan Gasgliadau Genedlaethol. Ar hyn o bryd, nid oes opsiwn arall ar gyfer gwagio'r casgliad heblaw codi estyniad i'r Ganolfan Gasgliadau.

iii. Roedd y Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a Chasgliadau (FPCC) wedi cael ei gomisiynu i graffu ar y lle storio casgliadau a oedd ar gael, gan gynnwys pa le oedd ar gael ar hyn o bryd, faint y byddai ei angen ar gyfer gwagio

Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, a faint o le posibl i dyfu'r casgliadau y byddai codi estyniad i'r Ganolfan Gasgliadau Genedlaethol yn ei gynnig i Amgueddfa Cymru ar ôl NMC 100.

CAM GWEITHREDU: Eitem ar Storio Casgliadau i gael ei hychwanegu at yr agenda ar gyfer cyfarfod FPCC ym mis Hydref 2026. (CJP)

iv. Roedd angen ystyried sut y byddai prosiectau ymchwil a oedd eisoes yn mynd rhagddynt yn gallu cael mynediad at rannau o'r casgliadau yn ystod gwaith rhaglen NMC 100.

CAM GWEITHREDU: Mynediad parhaus at y casgliadau ar gyfer prosiectau ymchwil yn ystod NMC 100 i gael ei ystyried. (PW)

v. Gallai creu lle ychwanegol yn y Ganolfan Gasgliadau Genedlaethol hefyd gynnig cyfle i sefydlu lleoliad ar gyfer gwaith sganio 3D ar eitemau yn y casgliad, a fyddai wedyn ar gael at ddibenion ymchwil neu at ddefnydd Mentrau.

vi. CAM GWEITHREDU: PW i feddwl am hygyrchedd parhaus ar gyfer gwaith ymchwil wrth i ni symud drwy'r prosiect, a chyfleoedd ar gyfer digideiddio.

PENDERFYNWYD: CYMERADWYODD yr Ymddiriedolwyr y cynnig i fwrw ymlaen â llunio cynlluniau ar gyfer lle storio ychwanegol, ar ffurf estyniad i'r Ganolfan Gasgliadau Genedlaethol.

2.3 Adnoddau i Gyflawni'r Rhaglen

Noddwr a Chyflwynydd: Phil Bushby, Cyfarwyddwr Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Phil Bushby, Cyfarwyddwr Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth, a ddywedodd y canlynol:
   i. Roedd yr adnoddau presennol yn y tîm Adeiladau a Phrosiectau Cyfalaf a oedd yn gweithio ar NMC 100 wedi cael ei recriwtio i arwain ar ddatblygu'r rhaglen.
   ii. Nid oedd Amgueddfa Cymru, o safbwynt adnoddau, mewn sefyllfa i gyflawni rhaglen a fyddai'n adlewyrchu uchelgais NMC 100.
   iii. Roedd gwaith yn mynd rhagddo i bennu'r lefel angenrheidiol o adnoddau a fyddai'n ofynnol i gyflawni'r rhaglen.

II. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y tynnwyd sylw at y canlynol:
   i. Roedd y strwythur presennol yn seiliedig ar NMC 100 fel prosiect adeiladau. Gan fod cwmpas y rhaglen wedi newid erbyn hyn, roedd angen diwygio neu ailgynllunio strwythurau i adlewyrchu'r newid mewn uchelgais. Nid oedd disgwyl y byddai'r rhaglen waith roedd y sefydliad yn dyheu amdani yn gallu cael ei chyflawni â'r lefelau presennol o adnoddau.

ii. Roedd yn amlwg bod angen cynllun pobl, ac roedd un wrthi'n cael ei ddatblygu. Hefyd, roedd y staff yn awyddus i wybod beth fyddai hyd unrhyw gyfnod posibl pan fyddai'r safle ar gau a sut y gall hynny effeithio ar rolau unigol.

iii. Byddai'r adnoddau gofynnol yn fwy eglur ar ôl i'r Achos Busnes Gwrthrychol gael ei gwblhau a'i gyflwyno, gan y byddai hynny'n gosod y sylfeini ar gyfer troi'r prosiect yn rhaglen.

PENDERFYNWYD: YSTYRIWYD yr eitem a rhoddwyd SICRWYDD i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

2.4 Rhaglen Gyflawni

Noddwr a Chyflwynydd: Phil Bushby, Cyfarwyddwr Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Phil Bushby, Cyfarwyddwr Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth, a ddywedodd y canlynol:

i. Roedd y rhaglen yn uchelgeisiol ac yn cynnwys amserlenni tynn.

ii. Roedd opsiynau a ffefrir wedi cael eu mynegi yn y dogfennau datblygu, megis y posibilrwydd o gau'r safle, ond nid oedd penderfyniadau wedi cael eu gwneud eto.

iii. Ceid ansicrwydd ynglŷn â rhai elfennau allweddol, fel lefelau cyllid, a allai effeithio ar y math o raglen a oedd yn ddichonadwy.

PENDERFYNWYD: YSTYRIWYD yr eitem a rhoddwyd SICRWYDD i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

2.5 Eiriolaeth

Noddwr a Chyflwynydd: Nia Elias, Cyfarwyddwr Cysylltiadau a Chyllido

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Nia Elias, Cyfarwyddwr Cysylltiadau a Chyllido, a ddywedodd y canlynol:

i. Byddai eiriolaeth yn hollbwysig i'r gallu i gyllido NMC 100. Roedd angen model cyllido cyfunol, wedi'i arwain gan fuddsoddiad cyhoeddus cynnar i ddenu cyllid pellach, er mwyn cyflawni'r rhaglen. Eiriolaeth oedd un o'r prif ddulliau o ddatgloi cyllid.

ii. Roedd gwersi a ddysgwyd o'r ymgyrchoedd codi arian a gynhaliwyd ar gyfer prosiectau ailddatblygu Sain Ffagan ac Amgueddfa Lechi Cymru wedi'u hymgorffori'n llawn yn y strategaeth codi arian ar gyfer y rhaglen.

iii. Roedd staff yn astudio dulliau a ddefnyddiwyd gan brosiectau codi arian tebyg a gynhaliwyd gan sefydliadau tebyg er mwyn i wersi a ddysgwyd o'r sector ehangach allu gael eu hymgorffori yn yr ymgyrch codi arian ar gyfer NMC 100.

II. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y tynnwyd sylw at y canlynol:

i. I gefnogi eiriolaeth ar gyfer codi arian, byddai cylch datblygu'n cael ei ffurfio. Byddai hyn yn golygu bwrdd codi arian gweithredol. Byddai aelodau'r bwrdd

hwn yn annibynnol ar Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, a byddent yn rhoi ar lefel sylweddol eu hunain ac yn gyfrifol am ddenu rhoddwyr eraill. Caiff rhagor o fanylion am y cylch datblygu eu cyflwyno ar yr adeg briodol.

PENDERFYNWYD: CYMERADWYODD yr Ymddiriedolwyr y trywydd presennol.

---

3. Cyfrifon Rheoli

Noddwr a Chyflwynydd: Peter Holt, Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro

I. Cyflwynodd Peter Holt, Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro, y Cyfrifon Rheoli. Trafododd yr Ymddiriedolwyr yr adroddiad.

PENDERFYNWYD: YSTYRIWYD yr eitem a rhoddwyd SICRWYDD i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

---

4. Trosolwg Risg Strategol

Noddwr a Chyflwynydd: Max Looker, Pennaeth Llywodraethu

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Max Looker, Pennaeth Llywodraethu, a nododd y canlynol:

   i. Roedd gwaith wedi cael ei wneud gyda'r Good Governance Institute (GGi) i greu'r Gofrestr Risg Strategol arfaethedig, a gyflwynwyd ar ffurf drafft o dan eitem 5 ar yr Agenda. Byddai'r drafft hwn yn cael ei drosi'n ddogfen fyw a fyddai'n cael ei chyflwyno'n ffurfiol am y tro cyntaf yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (ARAC) ym mis Gorffennaf 2026.

   ii. Roedd gwaith yn mynd rhagddo i bennu parodrwydd y sefydliad i dderbyn risg a byddai gweithdy'n cael ei drefnu ar gyfer yr Ymddiriedolwyr yn nes ymlaen yn 2026.

   iii. Roedd integreiddio risgiau strategol a gweithredol wedi'i amserlennu i ddigwydd yn llawn yn ystod Ch3 2026/2027, a byddai Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd wedyn cyn cael ei ddatblygu yn ystod Ch4 2026/2027.

II. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y tynnwyd sylw at y canlynol:

   i. Roedd graddfa prosiect NMC 100 yn golygu bod angen iddo gael ei risg strategol ei hun. Byddai hyn yn cael ei ystyried yng nghyfarfod ARAC ym mis Gorffennaf 2026.

   ii. Yn ogystal â haenau risg strategol a gweithredol, dylid ystyried haen risg gorfforaethol i'r Uwch-dîm Gweithredol fod yn berchen arni a chraffu arni.

CAM GWEITHREDU: Y syniad o gyflwyno haen risg gorfforaethol i brosesau rheoli risg Amgueddfa Cymru i gael ei ystyried. (PH)

iii. Roedd angen amlinelliad clir o bwy oedd yn berchen ar risgiau gweithredol, er mwyn sicrhau y caiff risgiau sy'n cynyddu eu canfod, eu lliniaru, a'u huwchgyfeirio cyn gynted â phosibl lle bo angen.

iv. Byddai'r Grŵp Rheoli Risg yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd, a byddai risg yn eitem sefydlog ar agendâu cyfarfodydd yr Uwch-dîm Gweithredol o hyn ymlaen.

v. Byddai'r newidiadau arfaethedig i bortffolios y Cyfarwyddwyr yn golygu bod risgiau strategol unigol wedi'u dosbarthu'n fwy cyfartal ymhlith aelodau'r Uwch-dîm.

PENDERFYNWYD: YSTYRIWYD yr eitem a rhoddwyd SICRWYDD i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

---

5. Y Gofrestr Risg Strategol

Noddwr a Chyflwynydd: Max Looker, Pennaeth Llywodraethu

I. Cyflwynwyd y Gofrestr Risg Strategol arfaethedig gan Max Looker, Pennaeth Llywodraethu, a ddywedodd y canlynol:

i. Roedd gwaith yn dal i fynd rhagddo ar y Gofrestr Risg Strategol.

ii. Byddai ARAC yn dilysu rheolaethau, sicrwydd a chysondeb.

iii. Byddai parodrwydd i dderbyn risg yn cael ei bennu ar wahân.

PENDERFYNWYD: CYMERADWYWYD y set arfaethedig o brif risgiau strategol.

CYMERADWYWYD perchnogaeth yr Uwch-dîm Gweithredol dros risgiau strategol.

---

6. Diweddariad ar Ailddatblygu Llanberis

Noddwr a Chyflwynydd: Phil Bushby, Cyfarwyddwr Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Phil Bushby, Cyfarwyddwr Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth, a ddywedodd y canlynol:

i. Diolchodd y Cyfarwyddwr Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth i staff Amgueddfa Lechi Cymru a Chanolfan Gasgliadau Llandygai am hwyluso ymweliad Bwrdd yr Ymddiriedolwyr â'r safleoedd ar 16 Mehefin 2026.

ii. Roedd FPCC wedi gofyn am fwy o wybodaeth am y newidiadau i gostau prosiect ailddatblygu'r Amgueddfa Lechi. Roedd y wybodaeth ychwanegol hon wedi cael ei chynnwys yn y papur a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod.

iii. Roedd staff Amgueddfa Cymru yn gofyn i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr gymeradwyo memorandwm cyd-ddealltwriaeth â Phartneriaeth Llechi Cymru, er mwyn sefydlu Rhwydwaith Stori Llechi newydd a fyddai'n cydweithio'n effeithiol i adrodd hanes Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru, sydd o bwys rhyngwladol.

II. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y tynnwyd sylw at y canlynol:

i. Gan mai mater yn ymwneud â rheoli costau oedd y newidiadau ariannol ar gyfer y prosiect yn bennaf, yn hytrach na'u bod yn deillio o benderfyniadau bwriadol, dylid cyfleu hyn yn naratif y prosiect o hyn ymlaen ac yn yr Adroddiad ar y Gwersi a Ddysgwyd, er budd rhaglenni Amgueddfa Cymru yn y dyfodol.

ii. Roedd papur mwy cynhwysfawr ar gostau'r prosiect wedi cael ei gyflwyno yng nghyfarfod diwethaf Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Mewnol Amgueddfa Lechi Cymru, a gellid ei ddosbarthu i'r Ymddiriedolwyr er gwybodaeth.

CAM GWEITHREDU: Papur Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Mewnol yr Amgueddfa Lechi i gael ei ddosbarthu i'r Ymddiriedolwyr er gwybodaeth. (CJP)

iii. Roedd gwelliant wedi bod yn ffigurau'r Arolwg Staff yn yr Amgueddfa Lechi. Roedd staff yr Amgueddfa Lechi wedi gofyn am i gynrychiolydd Adnoddau Dynol sy'n siarad Cymraeg gael ei benodi. Yn dilyn y cais hwn, roedd cylch recriwtio wedi cael ei gynnal, ac roedd cynnig wedi cael ei wneud.

iv. I gefnogi'r gwaith hwn, roedd memoranda cyd-ddealltwriaeth â Phartneriaeth Llechi Cymru wedi cael eu paratoi i gael eu hystyried. Roedd yr holl femoranda cyd-ddealltwriaeth yn cael eu cadw ar ffeil ac wedi'u cofnodi mewn grid strategol o fewn y gyfarwyddiaeth Cysylltiadau a Chyllido. Roedd y Pwyllgor Addysg ac Ymgysylltu (LEC) yn craffu ar femoranda cyd-ddealltwriaeth yn flynyddol.

v. Nid oedd ymrwymiad tymor hwy wedi cael ei wneud ar gyfer gweithgareddau ategol yn Ysbyty Alltwen. Pe bai ymrwymiad hwy yn cael ei gadarnhau, byddai costau refeniw ychwanegol yn gysylltiedig â hyn.

vi. Er mwyn rhoi gwersi a ddysgwyd ar waith mewn gweithgareddau yn y dyfodol, roedd y tîm Llywodraethu Corfforaethol wedi cael cais i fapio cerrig milltir yn y dyfodol yng nghylch y Bwrdd a'i Bwyllgorau, er mwyn i benderfyniadau allweddol gael eu bwydo i mewn i'r strwythur Llywodraethu yn briodol.

vii. Nododd Nicky Guy, Llywodraeth Cymru, y byddai'n fuddiol i swyddogion Llywodraeth Cymru gael gwybod am y rhestr o brosiectau a oedd yn barod i ddechrau a phrosiectau a oedd wrthi'n cael eu datblygu, er mwyn iddynt allu cael eu hystyried pe bai cyllid ychwanegol ar gael.

CAM GWEITHREDU: Rhestr o brosiectau sy'n barod i ddechrau a rhestr o brosiectau sydd wrthi'n cael eu datblygu i gael eu hanfon i Lywodraeth Cymru er gwybodaeth. (PB).

PENDERFYNWYD: YSTYRIWYD yr eitem a rhoddwyd SICRWYDD i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

CYMERADWYODD Bwrdd yr Ymddiriedolwyr y memorandwm cyd-ddealltwriaeth drafft â Phartneriaeth Llechi Cymru.

6.1 Adroddiad ar y Gwersi a Ddysgwyd

Noddwr a Chyflwynydd: Phil Bushby, Cyfarwyddwr Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth

I. Cyflwynodd Phil Bushby, Cyfarwyddwr Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth, yr Adroddiad ar y Gwersi a Ddysgwyd i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

PENDERFYNWYD: YSTYRIWYD yr eitem a rhoddwyd SICRWYDD i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

---

7. Partneriaeth Gelf Gogledd Cymru

Noddwr a Chyflwynydd: Jane Richardson, Prif Weithredwr

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Jane Richardson, Prif Weithredwr, a ddywedodd y canlynol:
   i. Roedd y cyfle hwn yn enghraifft bwerus o'r ffordd roedd Amgueddfa Cymru yn ceisio cynyddu mynediad at y casgliadau cenedlaethol drwy weithio mewn partneriaeth mewn modd priodol.
   ii. Er mwyn arwain y bartneriaeth hon a phartneriaethau posibl eraill yn y gogledd, byddai Arweinydd Partneriaethau Gogledd Cymru yn cael ei recriwtio i'r gyfarwyddiaeth Cysylltiadau a Chyllido.

II. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y tynnwyd sylw at y canlynol:
   i. Pe bai'n digwydd, byddai'r rhodd mor ddylanwadol i Amgueddfa Cymru â Chasgliad Davies.
   ii. Roedd yn bwysig bod celf Gymreig hanesyddol o fewn y casgliad Safbwyntiau ar gael i rannau eraill o Gymru hefyd.
   iii. Parc Cenedlaethol Eryri oedd yn arwain ar y cais am gyllid i'r Loteri Genedlaethol. Un o amodau'r rhodd oedd bod angen i gyllid fod wedi'i sicrhau i'w alluogi. Nid oedd yn briodol gwneud cyhoeddiad ffurfiol ynglŷn â'r rhodd na'r cynlluniau cysylltiedig ar y cam hwn yn y broses o wneud cais am gyllid.
   iv. Roedd y rhoddwr wedi dewis Plas Tan y Bwlch yn benodol fel y safle lle y byddai'r rhodd yn cael ei chadw. Nid yn unig y byddai lleoliad y safle yn gosod y casgliad yn uniongyrchol ar y brif ffordd i'r gogledd-orllewin, ond byddai hefyd yn golygu bod modd iddo weithredu fel angor ar gyfer safleoedd eraill a ariennir gan y Loteri Genedlaethol yn Boston Lodge ac Amgueddfa Lechi Cymru.
   v. Y bwriad oedd y byddai eitemau nad oeddent yn cael eu harddangos ym Mhlas Tan y Bwlch nac yn unrhyw un o safleoedd eraill Amgueddfa Cymru yn cael eu storio yn y Ganolfan Gasgliadau Genedlaethol.

PENDERFYNWYD: CYMERADWYODD Bwrdd yr Ymddiriedolwyr y cynnig i greu Partneriaeth Gelf Gogledd Cymru, wedi'i hwyluso a'i galluogi gan Barc Cenedlaethol Eryri, fel yr amlinellir yn y papur.

8. CELF – Cyllid a Dyfodol y Fenter

Noddwr a Chyflwynydd: Peter Wakelin, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil Dros Dro

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Peter Wakelin, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil Dros Dro, a ddywedodd y canlynol:

i. Roedd sgyrsiau adeiladol ychwanegol wedi cael eu cynnal â Llywodraeth Cymru, ac roedd disgwyl gohebiaeth bellach ganddi yn fuan. Dylai hynny roi'r sicrwydd ychwanegol sy'n ofynnol er mwyn i'r Prif Weithredwr lofnodi'r cytundeb cyllido ar gyfer 2026/2027.

ii. Roedd disgwyl i sgyrsiau ynglŷn â dyfodol y fenter y tu hwnt i 2026/27 ddechrau yn y dyfodol agos. Atgoffwyd yr Ymddiriedolwyr nad oedd modd i CELF, fel yr oedd wedi'i strwythuro a'i sefydlu ar hyn o bryd, fod yn hunangyllidol. Felly, roedd parhau i gael cyllid gan Lywodraeth Cymru yn hollbwysig i ddyfodol y fenter.

PENDERFYNWYD: YSTYRIWYD yr eitem a rhoddwyd SICRWYDD i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr. CYMERADWYODD yr Ymddiriedolwyr y trywydd roedd y staff yn ei ddilyn.

9. Diweddariad gan y Prif Weithredwr

Noddwr a Chyflwynydd: Jane Richardson, Prif Weithredwr

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Jane Richardson, Prif Weithredwr, a ddywedodd y canlynol:

i. Cyflwynwyd adroddiad y Prif Weithredwr mewn arddull newydd, gan adrodd yng nghyd-destun y Fframwaith Effaith newydd. Byddai hyfforddiant ychwanegol yn cael ei roi i'r Ymddiriedolwyr ar y gwaith Effaith a oedd yn digwydd o fewn Amgueddfa Cymru.

ii. Mae Amgueddfa Cymru wedi cynnig rhannu'r Fframwaith Effaith a'r gwaith meddwl sy'n sail iddo â Llywodraeth Cymru, ac mae hyn wedi cael croeso cynnes.

iii. Yn dilyn etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2026, roedd y Prif Weithredwr a Chadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr wedi cael cyfarfod cadarnhaol â'r Trefnydd, Prif Chwip a Gweinidog Cabinet dros Ddiwylliant a Chwaraeon newydd.

II. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y tynnwyd sylw at y canlynol:

i. Er bod angen gwneud rhai newidiadau i fireinio'r ffordd roedd data'n cael eu cyflwyno o hyd, roedd gweld data sy'n bwysig i'r busnes yn fuddiol dros ben i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

ii. Byddai'r staff yn dechrau cynnal gwerthusiad o berfformiad Gwen John yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, gan fod yr arddangosfa bellach wedi dechrau ar ei thaith allanol. Fodd bynnag, ni fyddai gwerthusiad llawn o'r arddangosfa'n dechrau tan ar ôl y daith ryngwladol.

iii. Byddai rhoddion dyngarol yn UDA yn cynnig set ddata ddefnyddiol ar gyfer fframio mwy o roddion rhyngwladol ar gyfer rhaglenni codi arian yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD: YSTYRIWYD yr eitem a rhoddwyd SICRWYDD i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

---

10. Diweddariad gan y Cadeirydd

Noddwr a Chyflwynydd: Kate Eden, Cadeirydd

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Kate Eden, Cadeirydd, a ddywedodd y canlynol:
   i. Ar ôl i dri Ymddiriedolwr newydd gael eu penodi, cynigiwyd gwneud y penodiadau canlynol i Bwyllgorau Parhaol Bwrdd yr Ymddiriedolwyr:
      a. Huw George i FPCC a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol fel aelod ac i ARAC fel Cadeirydd.
      b. Dr Justin Morris i FPCC a'r Pwyllgor Pobl, Adnoddau a Diwylliant (PRCC) fel aelod.
      c. Clare Pillman i FPCC, LEC a Phwyllgor Trosolwg a Chraffu Mewnol Llanberis fel aelod.
   ii. Elgan Jones i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Mewnol Llanberis fel aelod allanol cyfetholedig.
   iii. Siân Williams i FPCC fel aelod allanol cyfetholedig.

II. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y tynnwyd sylw at y canlynol:
   i. Ymddiriedolwr a Benodir gan Lywodraeth Cymru oedd y swydd wag olaf a oedd yn weddill ar Fwrdd yr Ymddiriedolwyr. Byddai sgyrsiau'n cael eu cynnal â Llywodraeth Cymru er mwyn dechrau'r broses benodi ar gyfer y rôl hon.

PENDERFYNWYD: CYMERADWYWYD y penodiadau i Bwyllgorau Parhaol Bwrdd yr Ymddiriedolwyr. YSTYRIWYD yr eitem a rhoddwyd SICRWYDD i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

---

11. Eitemau i'w Dileu o'r Casgliadau

Noddwr a Chyflwynydd: Peter Wakelin, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil Dros Dro

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Peter Wakelin, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil Dros Dro, a nododd nad oedd dim eitemau'n cael eu cyflwyno i gael eu dileu o'r casgliadau yng nghyfarfod mis Mehefin 2026.

PENDERFYNWYD: YSTYRIWYD yr eitem a rhoddwyd SICRWYDD i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

---

12. Polisi Rhoddion a Lletygarwch

Noddwr a Chyflwynydd: Max Looker, Pennaeth Llywodraethu

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Max Looker, Pennaeth Llywodraethu, a ddywedodd y canlynol:

i. Roedd ARAC wedi adolygu'r Polisi Rhoddion a Lletygarwch yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2026, gan argymell y dylai Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ei gymeradwyo.

PENDERFYNWYD: CYMERADWYWYD y Polisi Rhoddion a Lletygarwch.

---

13. Adolygu Awdurdodau Dirprwyedig

Noddwr a Chyflwynydd: Peter Holt, Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Peter Holt, Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro, a ddywedodd y canlynol:

i. Roedd y newidiadau i'r cynllun dirprwyo'n cael eu cynnig er mwyn cael gwared ar anghysondebau yn y ddogfen wreiddiol.

ii. Roedd FPCC wedi adolygu'r Rhestr wedi'i diweddaru yn ei gyfarfod ym mis Mai 2026, gan argymell y dylai Bwrdd yr Ymddiriedolwyr gymeradwyo'r Rhestr o Awdurdodau Dirprwyedig.

II. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y tynnwyd sylw at y canlynol:

i. Roedd gwariant o lai na £25,000 yn dal i gael ei reoli drwy'r prosesau archebion prynu a chaffael safonol.

CAM GWEITHREDU: Y Pennaeth Cyllid i gael ei chomisiynu i ysgrifennu nodyn briffio byr er gwybodaeth i'r Ymddiriedolwyr, yn amlinellu'r rheolaethau a oedd ar waith ar gyfer gwariant o lai na £25,000. (YR)

ii. Er nad oedd setliadau cyflogaeth wedi'u nodi'n benodol yn y Rhestr o Awdurdodau Dirprwyedig, roeddent wedi'u cynrychioli o fewn y lefelau a amlinellir yn y ddogfen.

CAM GWEITHREDU: Pan gaiff y Rhestr o Awdurdodau Dirprwyedig ei hadolygu nesaf, bydd paragraff yn nodi cytundebau setlo yn benodol yn cael ei ychwanegu. (ML)

PENDERFYNWYD: CYMERADWYWYD y newidiadau i'r Awdurdodau Dirprwyedig.

---

14. Adroddiadau Cadeiryddion y Pwyllgorau Parhaol

14.1 Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (ARAC)

Noddwr a Chyflwynydd: Dan Richards, Cadeirydd Dros Dro ARAC

I. Cyflwynodd Dan Richards, Cadeirydd Dros Dro ARAC, yr adroddiad i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

II. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y diolchodd Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr i Jan Williams CBE, Ymddiriedolwr, am wasanaethu fel Cadeirydd

ARAC, ac i Dan Richards, Ymddiriedolwr, am wasanaethu fel Cadeirydd Dros Dro ARAC yn y cyfnod interim cyn i Gadeirydd parhaol newydd gael ei benodi.

14.2 Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a Chasgliadau (FPCC)

Noddwr a Chyflwynydd: Rhys Evans, Cadeirydd FPCC

I. Cyflwynodd Rhys Evans, Cadeirydd FPCC yr adroddiad i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

14.3 Pwyllgor Addysg ac Ymgysylltu (LEC)

Noddwr a Chyflwynydd: Richard Thomas, Cadeirydd LEC

I. Cyflwynodd Richard Thomas, Cadeirydd LEC yr adroddiad i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

14.4 Pwyllgor Pobl, Adnoddau a Diwylliant (PRCC)

Noddwr a Chyflwynydd: Owen Hathway, Cadeirydd Dros Dro PRCC

I. Cyflwynodd Owen Hathway, Cadeirydd Dros Dro PRCC, yr adroddiad i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

II. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y nodwyd y canlynol:

i. Roedd pwysau amser ar aelodau'r Uwch-dîm Gweithredol i baratoi papurau a mynychu cyfarfodydd pwyllgorau yn destun pryder cynyddol.

ii. Dangosodd yr Arolwg Staff newid cadarnhaol mewn lefelau ymgysylltu ar gyfer Amgueddfa Cymru a'r Uwch-dîm, a oedd yn galonogol iawn.

CAM GWEITHREDU: Canlyniadau'r Arolwg Staff i gael eu rhannu â Bwrdd yr Ymddiriedolwyr er gwybodaeth. (PB)

iii. Diolchodd Cadeirydd y Bwrdd i Owen Hathway, Ymddiriedolwr, am gyflawni rôl Cadeirydd Dros Dro PRCC tra oedd Freya Stannard, Ymddiriedolwr, ar absenoldeb mamolaeth.

PENDERFYNWYD: YSTYRIWYD yr eitem a rhoddwyd SICRWYDD i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

---

15. Materion Llywodraethu'r Bwrdd

15.1 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Noddwr a Chyflwynydd: Chris Pyrah, Swyddog Llywodraethu

I. Cafodd cofnodion Sesiwn Gyhoeddus Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2026 eu hadolygu.

PENDERFYNWYD: CYMERADWYWYD cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2026.

15.2 Log Camau Gweithredu

Noddwr a Chyflwynydd: Chris Pyrah, Swyddog Llywodraethu

I. Cafodd y camau gweithredu a nodwyd ar y Log Camau Gweithredu o Sesiwn Gyhoeddus Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2026 eu hadolygu.

II. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y nodwyd y **CAMAU GWEITHREDU** canlynol:

i. **CAM GWEITHREDU**: Y ffordd y mae'r Bwrdd Pensiynau'n adrodd yn ôl i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr i gael ei hystyried (ML)

PENDERFYNWYD: NODWYD cynnydd o ran cyflawni'r camau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol.

15.3 Adroddiad o Sesiwn Gaeedig y Bwrdd

Noddwr a Chyflwynydd: Kate Eden, Cadeirydd

I. Cafodd adroddiad Sesiwn Gaeedig Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2026 ei adolygu.

PENDERFYNWYD: YSTYRIWYD yr eitem a rhoddwyd SICRWYDD i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr. CYMERADWYWYD yr adroddiad i gael ei gyhoeddi ar y wefan.

---

16. Cofnodion o Bwyllgorau Cynghori

Noddwr a Chyflwynydd: Chris Pyrah, Swyddog Llywodraethu

I. Cafodd cofnodion cyfarfodydd Pwyllgorau Parhaol canlynol Bwrdd yr Ymddiriedolwyr eu hadolygu:

i. Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Mewnol Amgueddfa Lechi Cymru – 11 Chwefror 2026

ii. Pwyllgor Caerllion – 13 Mai 2026

PENDERFYNWYD: YSTYRIWYD yr eitem a rhoddwyd SICRWYDD i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

---

17. Rhagolwg ar gyfer y Bwrdd a'i Bwyllgorau

Noddwr a Chyflwynydd: Chris Pyrah, Swyddog Llywodraethu

I. Cafodd y rhagolwg ar gyfer y Bwrdd a'i Bwyllgorau fel yr oedd ar ddiwedd Ch1 2026/2027 ei adolygu.

PENDERFYNWYD: YSTYRIWYD yr eitem a rhoddwyd SICRWYDD i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

---

18. Eitemau y Cytunwyd Arnynt Rhwng Cyfarfodydd y Bwrdd

Noddwr a Chyflwynydd: Kate Eden, Cadeirydd

I. Nododd yr Ymddiriedolwyr yr eitemau canlynol a GYMERADWYWYD drwy ohebiaeth rhwng cyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr:

   i. Penodi'r ymgeiswyr canlynol i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr fel Ymddiriedolwyr a benodir gan Amgueddfa Cymru:

      - Huw George
      - Dr Justin Morris
      - Clare Pillman

   ii. Prynu Clyngwyn, Dre-fach a chorffori'r eiddo i Amgueddfa Wlân Cymru.

PENDERFYNWYD: NODWYD yr eitem gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

---

19. Unrhyw Fater Arall

Noddwr a Chyflwynydd: Kate Eden, Cadeirydd

I. Ni chodwyd unrhyw eitemau o dan Unrhyw Fater Arall yn y cyfarfod.

Diwedd Sesiwn Gyhoeddus Bwrdd yr Ymddiriedolwyr